

Cael yr olwg hiraf

“Am fod Duw am i bobl wybod ei fod e ddim yn newid ei feddwl ac y bydd yn gwneud beth mae wedi ei addo iddyn nhw ...” (adn.17) (Beibl.net)

Beth am ddarlflen Hebreaid 6:13–20 ac yna myfyrio

Myfyriwn ychydig eto ar y ffaith mai Duw hanes yw ein Duw ni. Dywedodd Henry Ford yn ei achos enllib yn erbyn y *Chicago Tribune* ym 1919: “History is bunk.” Ysgrifennodd Rudolf Bultmann: “Mae cwestiwn ystyr mewn hanes wedi mynd yn ddiystyr.” Byddai rhai eraill yn cytuno â’r geiriau hyn: “Y siart cywiraf o ystyr hanes yw’r ôl traed a adewir gan bry meddw yn ymdrybaeddu a’i draed yn wlyb gan inc ar draws dalen o bapur gwyn. Dydy o’n arwain i unlle nac yn adlewyrchu’r un patrwm o ystyr.” Ydyn nhw’n iawn? Wrth gwrs nad ydyn nhw. Dynol yw’r golygon hyn; maen nhw’n methu â gweld pethau o bersbectif Duw, o olwg tragwyddol. Ychydig sy’n cael ei ddweud wrthym ni pan edrychwn ar dameidiau o hanes, ond pan gymerwn “yr olwg hiraf” fe allwn weld, fel mae C.S. Lewis yn ei roi, bod: “hanes yn stori a ysgrifennwyd gan fys Duw.”

Does gan haneswyr a chosmolegwyr ein dyddiau ni, sy’n gweld y gorffennol yn unig fel un argyfwng diystyr ar ôl y llall, ddim ateb i’r cwestiwn: O ble y daethom ac i ble rydym yn mynd? Ac oherwydd eu bod yn ystyried nad oes gan hanes yr un synnwyr o batrwm, maen nhw’n fuan yn dod o dan ddylanwad athroniaeth dirfodaeth (ynglŷn â’r hyn sy’n bodoli ar y pryd), sydd yn cofleidio’r presennol ac yn cau allan y dyfodol â’r gorffennol. Eto, ynghanol llanw a thrai athroniaethau modern, mae’r Cristion crediniol yn sefyll yn gadarn ac yn sylweddoli, er gwaethaf yr holl anawsterau a achoswyd gan bechod, bod yna eto gynllun dwyfol sydd yn rhedeg trwy holl hanes.

Bydded iti gael dy sicrhau, fy nghyfaill, nad cyfres o ddigwyddiadau damweiniol mo hanes, a phob achos gydag effaith ac effaith gydag achos iddo, a’r cyfan yn dweud nad oes patrwm o gwbl. Mae’r Duw sy’n cael ei ddatguddio yn y Beibl yn gweithio yn ôl cynllun ac yn cyflawni pob dim yn ôl bwriad ei ewylllys (gw. Effesiaid 1:11).

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Eseia 44:6–8;

Eff. 2:1–7; 3:7–11

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd ein cyflwr pan oeddem ni’n dilyn ffyrdd y byd?
2. Pam ddaru Duw ein codi i fyny gyda Christ?

Gweddi

O Dad, maddau imi fy mod i mor brysur yn edrych ar y presennol fel nad oes i mi ddiddordeb mawr yn y gorffennol na’r dyfodol. Helpa fi i gamu’n ôl a chael golwg ar holl fwriad Duw – a chael yr olwg hiraf. Yn enw Iesu. Amen.